

## **DEL MORGAN BSc, PhD, MBCS, CEng, PGCE(FE)**

Cymhwysodd Del yn Wyddonydd Cyfrifiadurol a gweithiodd ym myd diwydiant am bedair blynedd cyn ymgymryd â gyrfa mewn Addysg Uwch. Yn ystod ei yrfa academiaidd, cafodd saith mlynedd ar hugain o brofiad o weithio mewn amgylcheddau Prifysgol a Choleg, ynghyd ag ystod eang o weithgareddau atodol yn cynnwys ymchwil, ymgynghoriaeth a phrosiectau cymunedol ehangach. Cyn cymryd ymddeoliad cynnar yn 2009, roedd Del yn Rheolwr yr uned Astudiaethau Sylfaen ym Mhrifysgol Morgannwg, cyhoeddodd lyfr a chyflwynodd nifer o bapurau mewn sefydliadau Addysg Uwch ledled y byd. Bu hefyd yn Bennaeth rhan-amser Ysgol Haf nodedig Morgannwg am bedair blynedd.

Yn ogystal â'i yrfa academiaidd, daeth Del hefyd yn gynghorydd etholedig yn ystod yr 1980au ac ers hynny gwasanaethodd yn gynghorydd lleol am fwy na phum mlynedd ar hugain, ar gynghorau unedol a chymuned. Wedi ymddeol, parhaodd yn ei rôl gynrychioliadol, ac ymgwymerodd hefyd â swydd ran-amser yn ddarlithydd, yn arholydd allanol mewn prifysgol ac yn Swyddog Datblygu i Un Llais Cymru.

Ym meysydd amrywiol ymgysylltu â'r cyhoedd, mae Del wedi cymryd rhan mewn nifer o brosiectau pwysig a ddenodd arian grant sylweddol a buddiannau amlwg eraill i'w gymuned leol. Gwasanaethodd yn llywodraethwr ysgol am bron i bum mlynedd ar hugain ac yn Gadeirydd Llywodraethwyr am fwy na degawd. Mae Del yn weithgar hefyd mewn grwpiau cymunedol eraill mewn meysydd fel cyswllt diwydiannol, cyswllt â'r heddlu a rheoli cronfeydd cymunedol. Gwasanaethodd yn aelod o Bwyllgor Ymgynghorol yr Arglwydd Ganghellor, yn penodi a monitro gwaith ynadon heddwch am naw mlynedd. Ag yntau'n siaradwr Cymraeg rhugl, cadeiriodd Del Bwyllgor Gwyddoniaeth a Thechnoleg Eisteddfod Genedlaethol 1994, ac roedd yn gyfrifol am drefnu a darparu'r pafiliwn gwyddoniaeth a chystadlaethau, darlithiau ac arddangosiadau cysylltiol. Mae ganddo brofiad enfawr o siarad cyhoeddus ac o gymryd rhan mewn darllediadau ar y cyfryngau yn Gymraeg a Saesneg dros gyfnod o flynyddoedd lawer.

Yn ei rôl yn Un Llais Cymru, mae Del yn cefnogi rhanbarth y Canolbarth & Gorllewin ac mae'n arwain ym maes datblygu polisi ac ymgynghori yn y sector. Sefydlodd fframwaith ar gyfer aelod gynghorau a chynghorwyr i chwarae rhan uniongyrchol mewn gwahanol ymarferion ymgynghori ar bolisiâu llywodraeth, ac mae'n awyddus i ehangu lefel cyfranogiad mewn trafodaethau polisi trwy gyfres reolaidd o seminarau ar gyfer cynrychiolwyr aelod gynghorau.